**Datganiad ar y cyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.**

Mae plant yng Nghymru'n haeddu gwasanaethau rhagorol, a dylent fyw mewn gwlad sydd ag arweinwyr sy'n hyrwyddo hawliau plant yn rhagweithiol. Rhaid i blant a'u llesiant fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, wedi'u cefnogi gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru), yn unedig yn eu cefnogaeth i ymdrechion parhaus Comisiynydd Plant Cymru i sicrhau bod y gwaith o ddiwygio'r sector addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru yn cael ei ddatblygu fel blaenoriaeth i'r llywodraeth newydd yng Nghymru yn ystod tymor newydd y Senedd.

Roedd pawb yn siomedig wrth glywed y newyddion na fyddai'r mater yn cael ei ddatblygu yn ystod y tymor diwethaf.

Canfu'r 'Adolygiad o sut mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau', gan Gomisiynydd Plant Cymru, 'na chyflawnwyd newid sylweddol mewn unrhyw fodd' yn ystod tymor diwethaf y Senedd. Yn wir, hwn fydd trydydd tymor y Senedd, ers marwolaeth y bachgen bach wyth oed, Dylan Seabridge, yn Sir Benfro ym mis Rhagfyr 2011, pan nad yw'r mater hwn wedi cael unrhyw sylw.

Fodd bynnag, mae gennym reswm i deimlo'n optimistaidd y gall y mater o addysg ddewisol yn y cartref, o dan lywodraeth newydd a gweinidog newydd, gael sylw o'r newydd a bod yn destun camau mawr eu hangen er mwyn sefydlu trefniadau digon cadarn ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref a'u teuluoedd, ac ar gyfer sicrhau y caiff unrhyw blant sydd mewn perygl ac sy'n cael eu haddysgu o dan drefniadau o'r fath eu diogelu.

Rhaid peidio â cholli'r cyfle i fanteisio ar dymor llawn newydd y llywodraeth er mwyn bwrw ymlaen â deddfwriaeth sylfaenol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r angen am ddiwygio bellach yn bwysicach nag erioed o'r blaen, gan fod nifer y plant sydd bellach yn cael eu haddysgu yn y cartref ledled Cymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig.

Golyga hyn fod hyd yn oed mwy o blant a allai fod yn agored i niwed ac angen gwasanaethau nad ydynt yn cael eu gweld gan oedolion neu weithwyr proffesiynol

diogel y tu allan i'r cartref, ac yn cael llai o gyfle i ffurfio cydberthnasau y tu allan i'r cartref a fydd yn sail i gael eu clywed, cael sylw, neu ofyn am gymorth.

Wrth ddarparu ein cymorth i ymdrechion Comisiynydd Plant Cymru, rydym hefyd yn cytuno â'i safbwynt mai’r ffordd orau o wella proffil addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru, ac o ddarparu dull sy'n fwy strwythuredig a diwyd ar gyfer y mater hwn er lles y plant dan sylw, yw datblygu deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i hategu gan adnoddau ystyrlon sy'n gosod rhwymedigaethau statudol ar awdurdodau lleol i oruchwylio trefniadau o'r math yn eu hardaloedd.

Mae'n hanfodol bwysig bod plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn cael eu haddysgu’n briodol ond hefyd yn cael eu gweld a'u clywed ac yn gallu cyrchu unrhyw wasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Er ein bod yn cydnabod bod y rhan fwyaf o addysgwyr yn y cartref yn darparu lleoliadau da a diogel i blant gael dysgu, ac yn chwilio am gyfleoedd i’r plant wella eu haddysg a’u datblygiad y tu allan i'r cartref, rydym yn ymwybodol, yn anffodus, nad yw hyn yn wir bob amser. Dyma pam mae'n bwysig bod unrhyw drefniadau deddfwriaethol newydd yn cynnwys gofyniad i blant gael eu gweld.

Mae gosod goblygiadau statudol ar awdurdodau lleol i weld y plant hyn, trwy ymweld a chyfathrebu â hwy, yn gam diogelu allweddol yn ogystal ag un sy’n sicrhau ansawdd, gan gefnogi canlyniadau addysgol a llesiant.

Mae CCAC, Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan ac ADSS Cymru wedi ymrwymo i gydweithio mewn ffordd gydgynhyrchiol gydag addysgwyr yn y cartref i ddatblygu fframwaith sy'n cynnal buddiannau a hawliau rhieni fel addysgwyr, ond sydd hefyd yn caniatáu bod hawliau’r plant yn cael eu datblygu a’u diogelu, ynghyd â diogelu eu lles cyffredinol.

Os ydym am gynnal Erthygl 19 (Amddiffyn rhag camdriniaeth) ac Erthygl 28 (Yr hawl i addysg) o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd yn gyflym gydag addysgwyr yn y cartref, plant a phobl ifanc, ynghyd â phartïon eraill â diddordeb, fel bod modd cyrraedd unrhyw ddatrysiad yn unol ag egwyddorion llawn cydgynhyrchu.

------ Ends ---------

Datganiad ar y cyd yw hwn gan ADSS Cymru ac CCAC.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru yw'r sefydliad arweinyddiaeth proffesiynol a strategol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn sefydliad aelodaeth, yn cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Rôl ADSS Cymru, fel y sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, yw cynrychioli llais cyfunol, awdurdodol cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a phenaethiaid gwasanaethau i oedolion a phlant, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed, eu teuluoedd a'u cymunedau, ar amrediad o faterion cenedlaethol a rhanbarthol cysylltiedig â pholisïau, arferion ac adnoddau gofal cymdeithasol. Dyma'r unig gorff cenedlaethol sy'n gallu mynegi barn y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n arwain ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addsyg Cymru (CCAC) yw'r grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdodau lleol sy'n atebol am swyddogaethau addysg statudol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru.
Mae gan y gymdeithas rôl hirsefydlog wrth gynghori ar ddatblygu a chyflenwi addysg a lansiadau cysylltiedig eraill yn strategol ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â contact@adss.cymru